

Cyfraith Diogelu Data

Byddwn yn prosesu'r holl wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu gennych yn unol â saith egwyddor y Ddeddf Diogelu Data, nid yn unig oherwydd bod dyletswydd gyfreithiol arnom i wneud hynny ond hefyd oherwydd ein bod o'r farn bod gwneud hynny'n arfer busnes da a'i fod yn ein helpu i ddod i adnabod ein cwsmeriaid yn well a diogelu eu gwybodaeth yn well.

I wneud hynny, rydym yn dilyn saith egwyddor y Ddeddf Diogelu Data sy'n datgan:

- Bod yn rhaid i ddata gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
- Bod yn rhaid i ddata gael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig
- Bod yn rhaid i ddata fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol
- Bod yn rhaid i ddata fod yn gywir ac yn gyfredol
- Na ddylid cadw data am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol
- Bod yn rhaid i ddata gael ei brosesu'n unol â'ch hawliau
- Ein bod yn gyfrifol am ddangos, a bod yn rhaid i ni allu dangos, ein bod yn cydymffurfio â deddfau diogelu data.

Rhannu ag eraill wybodaeth bersonol amdanoch y gellir eich adnabod wrthi

Dim ond o fewn y sefydliad y bydd Barcud yn rhannu ag eraill wybodaeth bersonol amdanoch y gellir eich adnabod wrthi. Caiff yr holl wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni ei storio yn ein system ddiogel ar gyfer rheoli tai. Caiff unrhyw dystiolaeth ddogfennol ei sganio a'i storio yn ein system ddiogel ar gyfer rheoli dogfennau. Dim ond gweithwyr Barcud Cyf all gael mynediad i'r systemau hyn, ar ôl cael hyfforddiant ynghylch diogelu data ac ynghylch diogelwch gwybodaeth.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol

Bydd hyd y cyfnod y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn dibynnu ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i chi. Ni fyddwn fyth yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch, y gellir eich adnabod wrthi, am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y mae angen i ni ddefnyddio'r wybodaeth ar eu cyfer.

Eich hawliau o ran preifatrwydd

Ers 25 Mai 2018 mae gennych wyth hawl sy'n ymwneud â'r modd y caiff gwybodaeth bersonol amdanoch, y gellir eich adnabod wrthi, ei defnyddio a'i storio. Dyma'r hawliau dan sylw:

- Yr hawl i gael gwybod.
- Yr hawl i weld.
- Yr hawl i gywiro.
- Yr hawl i ddileu.
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu.
- Yr hawl i allu cludo data.
- Yr hawl i wrthwynebu.
- Hawliau'n ymwneud â phenderfyniadau a gwaith proffilio awtomataidd.

Yn fras, mae gennych yr hawl i gael gwybod pwy sy'n cael ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch y gellir eich adnabod wrthi, sut y caiff y wybodaeth honno ei chadw, ei rhannu a'i diogelu, a pha sail gyfreithiol a ddefnyddir i gael a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch y gellir eich adnabod wrthi. Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych yr hawl i wrthwynebu'r modd yr ydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch y gellir eich adnabod wrthi. Yn ogystal, mae gennych yr hawl i gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch y gellir eich adnabod wrthi.

Yn ogystal, gallwch ofyn i Barcud gywiro gwallau, dileu neu gyfyngu ar wybodaeth bersonol amdanoch y gellir eich adnabod wrthi, neu ofyn am i rywfaifaint o'r wybodaeth bersonol amdanoch y gellir eich adnabod wrthi gael

ei darparu i rywun arall. Gallwch gwyno os byddwch yn teimlo bod Barcud yn gwneud defnydd anghyfreithlon o wybodaeth bersonol amdanoch y gellir eich adnabod wrthi a/neu'n dal gwybodaeth o'r fath sy'n wallus, yn annigonol neu'n amherthnasol ac a allai gael effaith andwyol arnoch chi a/neu gael effaith ar eich hawliau pe bai'n cael ei defnyddio. Gallwch hefyd gwyno wrth yr awdurdod sy'n goruchwylio trefniadau diogelu data. Yn y DU, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod hwnnw a dyma wefan y Swyddfa: <https://ico.org.uk>.